

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Adeiladu ysgol arbennig newydd, cyfrwng Saesneg, cymysg, 3 i 19 oed yn Rhondda Cynon Taf ar safle newydd yng Nghwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.
2. Cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer holl ysgolion arbennig 3 i 19 oed ledled Rhondda Cynon Taf (a gaiff eu rhestru yn 2.1, 2.2 a 2.3) er mwyn bodloni a rheoli'r galw am leoedd mewn ysgolion arbennig yn well:

- 2.1 Ysgol Arbennig Park Lane
- 2.2 Ysgol Hen Felin
- 2.3 Ysgol Tŷ Coch

Cynhaliodd Cyngor Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael yma:

[Cynnig i ddatblygu ysgol arbennig 3 i 19 newydd yn Rhondda Cynon Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](#)

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 1 Medi 2026.

Mae cynnig i blant a phobl ifainc sy'n dymuno aros yn eu hysgol arbennig bresennol yn dilyn y newidiadau i'r dalgylchoedd barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, bydd pob lleoliad newydd yn cael ei lywio gan y dalgylchoedd diwygiedig unwaith y bydd y newidiadau wedi'u rhoi ar waith fel bod disgyblion yn mynychu eu hysgol arbennig leol.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol arbennig gymunedol 3 i 19 oed cyfrwng Saesneg, cymysg, ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

Cyngor Rhondda Cynon Taf fydd yr awdurdod derbyn.

Yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 21/2022 nid oes nifer derbyn na chapasiti ar gael ar gyfer yr ysgol arbennig newydd yma. Nid yw'r dull ar gyfer asesu capasiti ysgolion, yn unol â'r canllawiau yng Nghylchlythyr Rhif 21/2022 Llywodraeth Cymru, yn berthnasol i ysgolion arbennig.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion fynd i'w hysgol agosaf a mwyaf addas, neu os nad oes llwybr cerdded diogel ar gael, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at y dalgylch neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig agosaf, fel y bo'n briodol.

Caiff pwy bynnag a fynno gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion yma cyn pen 28 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig yma, sef 8 Rhagfyr 2023. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN neu e-bostio: [CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk](mailto:CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk).

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.

Llofnod:	<i>Cyngor Davies</i>
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	
Dyddiad:	10 Tachwedd 2023